



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CORIDOR YR M4 O AMGYLCH CASNEWYDD

Cynnig Atodol Llywodraeth Cymru
Ffordd Ymadael Magwyr tua'r Dwyrain - Mawrth 2017

M4 CORRIDOR AROUND NEWPORT

Welsh Government Supplementary Proposal
Magor Eastbound Off-Slip - March 2017





Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Orchmynion drafft ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd (y Cynllun) ym mis Mawrth 2016. Mae gwirthwynebiadau wedi cael eu derbyn a chânt eu clywed mewn Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a ddechreuodd ar 28 Chwefror 2017 yn Sefydliad Lysaght yng Nghasnewydd.

Yn dilyn ymgynghoriadau ychwanegol â rhanddeiliaid, mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo ffordd ymadael tua'r dwyrain rhwng cylchfan Heol Casnewydd a'r M4 tua'r dwyrain. Gan fod hyn yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru a bod Gorchmynion drafft wedi cael eu cyhoeddi, gall yr Arolygwyr yr Ymchwiliad argymhell bod hyn yn cael ei fabwysiadu.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cefnogi neu wrthwynebu'r Cynnig hwn wneud hynny erbyn 10 Mai 2017 trwy ysgrifennu at:

Y Gangen Orchmynion

Adran yr Economi a'r Seilwaith
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Neu drwy anfon neges e-bost at:
info@m4-can.com

Bydd yr holl sylwadau a dderbynir yn cael eu trosglwyddo i Arolygwyr yr Ymchwiliad er mwyn eu hystyried. Fe'ch atgoffir y gallai sylwedd eich sylwadau gael ei gyfleo i bobl eraill y gallent gael eu heffeithio ganddynt. Yn yr achos hwnnw, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r Arolygwyr ddatgelu'r sylwadau ac enw'r awduron yn yr Ymchwiliad, oni bai bod rhesymau arbennig dros beidio â gwneud hynny. Fel arfer, cedwir copi o'r holl ohebiaeth yn llyfrgell yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, sydd ar agor i'w harchwilio gan y cyhoedd.

The Welsh Government published draft Orders for the M4 Corridor around Newport (the Scheme) in March 2016. Objections have been received and will be heard at a Public Local Inquiry which commenced on 28 February 2017 at Newport Lysaght Institute.

Following further consultations with Stakeholders the Welsh Government is promoting an eastbound off-slip between Newport Road roundabout and the eastbound M4. As this is promoted by the Welsh Government and draft Orders have been published, the Inquiry's Inspectors can recommend that this is adopted.

Anyone wishing to support or object to this Proposal should do so by 10 May 2017 by writing to:

Orders Branch

Department for Economy and Infrastructure
Welsh Government Offices
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ

Or by email to:
info@m4-can.com

All comments received will be passed to the Inquiry's Inspectors for consideration. You are reminded that the substance of your comments may also be communicated to other people who may be affected by them. In that event, the Inspectors may be required to disclose the comments and the identity of the authors at the Inquiry, unless there are special reasons to the contrary. A copy of all such correspondence is normally kept in the Public Local Inquiry and is open to public inspection.

Sylwer bod Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r Cynnig hwn

Mae'r Cynnig wedi cael ei arfarnu yn erbyn mein prawf Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellir yn WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru).

Mae'r dull hwn a arweinir gan amcanion yn ystyried gallu pob dewis i fodloni Amcanion Penodol y Cynllun, ac yn ei arfarnu yn erbyn tri maes effaith Llywodraeth Cymru (yr Economi, yr Amgylchedd a Chymdeithas), derbynioldeb gan y cyhoedd a rhanddeiliaid, ymarferoldeb technegol a gweithredol, cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd ariannol, a risgiau.

Disgrifiad Cryno

Mae'r cynnig yn ymwneud ag adeiladu ffordd ymadael tua'r dwyrain o ffordd gerbydau'r M4 arfaethedig, i'r gorllewin o Fagwyr. Byddai'r ffordd ymadael yn dringo ar raddiant o hyd at 3% i ymuno â chylchfan arfaethedig a fyddai'n gwasanaethu Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 a Heol Casnewydd y B4245 yn agos i Gyffordd 23A bresennol yr M4.

O gymharu â'r Cynllun Cyhoeddiedig, byddai'n rhaid i'r gylchfan arfaethedig gael ei symud i'r gorllewin a'i hehangu o 58m i 74m o ddiamedr er mwyn cynnwys y ffordd ymadael fel braich ychwanegol. Byddai'r breichiau cysylltu eraill, sef yr A4810 a'r B4245 ar bob ochr, yn cael eu hadlinio i weddu i leoliad diwygiedig y gylchfan.

Byddai llwybr ar gyfer defnyddwyr difodur y B4245 yn newid. Ni fyddai llwybr wedi'i wahanu ar lefel, a fyddai'n mynd o dan yr A4810 gan ddefnyddio pont bresennol, yn ymarferol, a byddai'n cael ei ddisodli gan lwybr ar yr un lefel gyda mannau croesi a reolir gan signalau ar y ffordd ymadael arfaethedig a Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 i'r de o'r gylchfan.

Please note that the Welsh Government is promoting this Proposal

The Proposal has been appraised against the Welsh Government's criteria as set out in WelTAG (Welsh Transport Appraisal Guidance).

This objective-led approach considers the ability of the option to meet the Scheme Specific Objectives, and appraises it against the Welsh Government's three impact areas (Economy, Environment and Social), public and stakeholder acceptability, technical and operational feasibility, financial affordability and deliverability, and risks.

Brief Description

The proposal involves the construction of a slip road leaving the eastbound carriageway of the proposed M4 to the west of Magor. The slip road would climb at a gradient of up to 3% to join a proposed roundabout serving the A4810 Steelwork Access Road and the B4245 Newport Road close to the existing M4 Junction 23A.

Compared to the Published Scheme, the proposed roundabout would have to be moved to the west and enlarged from 58m to 74m diameter to accommodate the slip road as an additional arm. The other connecting arms, the A4810 and the B4245 on either side, would be realigned to suit the revised roundabout location.

A route for non-motorised users of the B4245 would change from a grade separated route passing under the A4810 using an existing bridge would not be feasible and would be replaced by an at-grade route with signal-controlled crossing points of the proposed slip road and the A4810 Steelworks Access Road south of the roundabout.

Meysydd effaith Llywodraeth Cymru ar gyfer arfarniad WeltAG yw'r Economi, yr Amgylchedd a Chymdeithas.

Yr Economi: Mae'r arfarniad economaidd yn ystyried:

Effeithlonrwydd Economaidd Trafnidiaeth-
Aarfarnu'r effeithiau a gofnodir fel arfer trwy ddadansoddiad cost a budd safonol – yr effeithiau o fewn y sector trafnidiaeth.

Effeithiau ar Leoliad a Gweithgarwch Economaidd - Arfarnu'r effeithiau ar yr economi leol a rhanbarthol ac economi Cymru – yr effeithiau y tu hwnt i'r sector trafnidiaeth.

Yr Amgylchedd: Mae'r arfarniad amgylcheddol yn ystyried:

Sŵn - Arfarnu'r effaith ar sŵn.

Ansawdd aer lleol - Arfarnu'r effaith ar ansawdd aer lleol.

Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol -
Nifer yr eiddo a fyddai'n profi gwelliant, dirywiad neu effaith niwtral ar olygfeydd, ac arfarnu effaith y newidiadau i'r dirwedd, o ganlyniad i'r cynnig.

Bioamrywiaeth -
Creu, gwella, colli, difrodi neu aflonyddu rhywogaethau, ecosystemau a chynefinoedd anifeiliaid a phlanhigion.

Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol -
Aarfarnu'r effeithiau ar safleoedd archaeolegol a threftadaeth ddiwylliannol.

Amgylchedd dŵr - Yr effaith ar ansawdd dŵr gan gynnwys newidiadau sy'n debygol o ddigwydd i gyrsiau dŵr.

Priddoedd a daeareg - Yr effaith ar briddoedd, llystyfiant, cynefinoedd cyffredinol, amaethyddiaeth ac arferion garddwriaethol.

The Welsh Government's impact areas for WeltAG appraisal are Economy, Environment and Social.

Economy: The economic appraisal considers:

Transport Economic Efficiency (TEE) - Appraisal of the effects ordinarily captured by standard cost-benefit analysis – the effects within the transport sector.

Economic Activity and Location Impacts (EALIs) - Appraisal of the effects on the local, regional and Welsh economy – the effects beyond the transport sector.

Environment: The environmental appraisal considers:

Noise - Appraisal of the effect on noise.

Local air quality - Appraisal of the effect on local air quality.

Landscape and visual impact - The number of properties experiencing an improvement, deterioration or neutral effect to views, and an impact appraisal of the changes to the landscape, as a result of the proposal.

Bio-diversity - The creation, enhancement, loss, damage or disturbance of fauna and flora species, ecosystems and habitats.

Archaeology and cultural heritage -
Appraisal of the effects on archaeological and cultural heritage sites.

Water environment - The effect on water quality including changes likely to occur to watercourses.

Soils and geology - The effect on soils, vegetation, general habitats, agriculture and horticultural practices.

Cymdeithasol: Mae'r arfarniad cymdeithasol yn ystyried:

Diogelwch trafnidiaeth - Y newid mewn damweiniau anaf personol.

Diogelwch personol - Y risg i ddiogelwch personol a'r ofn yn ei gylch.

Athreiddedd - Pa mor rhwydd ydyw i deithio trwy ddulliau difodur.

Ffitrwydd corfforol - Y manteision iechyd sy'n gysylltiedig â theithio llesol.

Cynhwysiant cymdeithasol - Pa mor rhwydd y gall pobl gyrraedd eu cyrchfannau a chael y gwasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol
- Cydraddoldeb mynediad at drafnidiaeth, safleoedd, gwasanaethau a chyfleusterau.

Arall: Mae'r cynigion hefyd yn cael eu harfarnu yn erbyn meinu prawf eraill canlynol WeTAG:

Derbynioldeb gan y cyhoedd - I ba raddau y mae'r cynigion yn cael eu cefnogi gan y cyhoedd.

Derbynioldeb i randdeiliaid eraill - I ba raddau y mae'r cynigion yn cael eu cefnogi gan randdeiliaid heblaw am y cyhoedd.

Ymarferoldeb technegol a gweithredol - I ba raddau y mae cyfyngiadau presennol yn effeithio ar ymarferoldeb y cynigion.

Cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd ariannol - Gofynion ariannol a chyllido'r cynigion.

Risgiau - Y risgiau sy'n gysylltiedig â chostau, adeiladu a gweithredu.

Social: The social appraisal considers:

Transport safety - The change in personal injury accidents.

Personal security - The risk to and fear for personal safety.

Permeability - The ease of travel by non-motorised modes.

Physical fitness - The health benefits associated with active travel.

Social inclusion - The relative ease with which people can get to their destinations and obtain the services that are important to them.

Equality, diversity and human rights - Equality of access to transport, sites, services and facilities.

Other: The proposals are also appraised against the following other WeTAG criteria:

Public acceptability - The extent to which proposals are supported by the public.

Acceptability to other stakeholders - The extent to which proposals are supported by stakeholders other than the public.

Technical and operational feasibility - The extent to which existing constraints affect the feasibility of the proposals.

Financial affordability and deliverability - The financial and funding requirements of the proposals.

Risks - Risks associated with costs, implementation and operation.

FFORDD-YMADAEL MAGWYR TU'A'R DWYRAIN – TABL CRYNHOI'R ARFARNIAD

Mae'r cynnig hwn ar gyfer ffordd-ymadael ychwanegol tua'r dwyrain ar yr M4 arfaethedig rhwng Llandyfenni a Magwyr. Bydd yn cysylltu â'r rhwydwaith ffyrdd lleol ar gylchfan yr A4810 wrth gyffordd Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810/y B4245.

MAGOR EASTBOUND OFF SLIP - APPRAISAL SUMMARY TABLE

This proposal comprises of an additional eastbound off-slip on the proposed M4 between Llandavenny and Magor. This will link with the local road network at the A4810 roundabout at the A4810 Steel works Access Road /B4245 junction.

Yr Economi

Cost Amcangyfrifedig y Cynllun: £4.76m
Cymhareb Cost a Budd (BCR): 1.65

Effeithlonrwydd Economaidd Trafnidiaeth:
Byddai 3110 gerbydau ychwanegol y dydd yn defnyddio cylchfan Heol Casnewydd o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r effaith ar y Cynllun yn ddibwys. Gweler tudalennau 10 ac 11 Tabl 2 a'r diagramau ychwanegol ar tudalennau 12,13,14 ac 15 i gael mwy o wybodaeth am lif traffig oriau brig.

Effeithiau Lleoliad a Gweithgarwch Economaidd: Byddai'r effeithiau ar yr economi yn lleol ac yn gyfyngedig o ran lleihau costau trafnidiaeth a gwella amserau teithio.

Yr Amgylchedd

Sŵn: Disgwylir i unrhyw newid mewn lefelau sŵn fod yn ddibwys. Asesir hyn yn fanwl yn yr Atodiad i Ddatganiad Amgylcheddol mis Mawrth 2017.

Ansawdd Aer Lleol: Rhagwelir cynnydd mewn traffig ar y ffordd gerbydau tua'r dwyrain (a gostyngiad ar yr A4810). Mae unrhyw gynnydd mewn crynodiadau llygrwyr cysylltiedig yn debygol o fod yn fach iawn. Asesir hyn yn fanwl yn yr Atodiad i Ddatganiad Amgylcheddol mis Mawrth 2017.

Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol:
Byddai ardal ychwanegol o lain goetir linol aeddfed yn cael ei dileu ar gyfer y diwygiad arfaethedig i'r Cynllun, ond cynigir plannu llwyni brodorol newydd a choed achlysuol yn yr ardal. Mae'r diwygiad i'r Cynllun o fewn Ardal Cymeriad Lleol Magwyr a Gwndy. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn newid manylion a gosodiad rhai o'r elfennau sy'n cael eu cyflwyno i'r ardal gymeriad hon, ond ni ragwelir ychwanegu elfennau newydd na newid y raddfa'n sylweddol. Nid ystyrir y byddai'r effaith ar elfennau tirwedd yn arwyddocaol. Yn yr un modd, nid ystyrir y byddai'r effaith ar amwynder gweledol yn arwyddocaol.

Economy

Estimated Scheme Cost: £4.76m
Benefit to Cost Ratio (BCR): 1.65

Transport Economic Efficiency (TEE):
The proposal would result in an additional 3110 vehicles per day using the Newport Road roundabout. The effect on the Scheme is negligible. See page 10 and 11 Table 2 and additional diagrams on pages 12,13,14 and 15 for more information on peak hour flows

Economic Activity and Location Impacts (EALI): Impacts on the economy would be local and limited in terms of reduced transport costs and improved journey times.

Environment

Noise: Any change in noise levels is predicted to be negligible. This is assessed in detail within the March 2017 Environmental Statement Supplement (ESS).

Local Air Quality: An increase in traffic volumes is predicted on the eastbound carriageway (and a reduction predicted on the A4810). Any increase in associated pollutant concentrations is considered likely to be minimal. This is assessed in detail within the March 2017 ESS.

Landscape and Visual Impact: An additional area of mature linear woodland belt would be removed for the proposed Scheme amendment however new native shrub planting with occasional trees is proposed in the area. The Scheme amendment lies within the Magor and Undy Local Character Area. The proposed changes would alter the detail and layout of some of the elements being introduced into this character area however the addition of new elements or substantial change in scale is not predicted. The effect on landscape elements is not considered significant. Similarly the effect on visual amenity is not considered significant.

Bioamrywiaeth: Disgwylier effaith fach iawn (os o gwbl) ar ystlumod, pathewod, moch daear a mafallop dŵr cribog. Bydd arolygon pathewod yn cael eu cynnal yn yr ardal hon, a phe byddai'r rhain yn cadarnhau bod pathewod yn bresennol, byddai'r ardal hon yn cael ei chynnwys yn y strategaeth lliniaru'r effaith ar bathewod. Nid yw'r ardal goetir sydd i'w cholli wedi'i dynodi'n safle sy'n bwysig yn ecolegol ac nid yw wedi'i chynnwys ar y rhestr coetiroedd hynafol. Er hynny, mae coed a llwyni o werth posibl i adar sy'n bridio, felly byddai llystyfiant yn cael ei glirio y tu allan i dymor bridio adar neu yn dilyn arolwg i gadarnhau nad oes nythod adar yn bresennol.

Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol: Ni ddisgwylier effaith ychwanegol mewn perthynas ag archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol. Asesir hyn yn fanwl yn yr Atodiad i Ddatganiad Amgylcheddol mis Mawrth 2017.

Amgylchedd Dŵr: Bydd dŵr ffo wyneb o'r ffordd-ymadael newydd tua'r dwyrain ym Magwyr yn cael ei ddal gan systemau draenio confensiynol a fydd yn cynnwys sianeli concrid, gyliau, pibellau cludo a draeniau hidlo. Bydd llif o'r wyneb rhedeg tarmacadam yn cael ei ddal ar wahân i'r toriad draenio. Bydd llif o'r briffordd yn cael ei chyfeirio at Ardal Trin Dŵr 10 i'w arafu a'i drin, a bydd llif o'r toriad yn cael ei gyfeirio at gyrsiau dŵr o fewn y dalgylch. Byddai unrhyw effaith ar yr amgylchedd dŵr yn fach iawn.

Priddoedd a Daeareg: Disgwylier i unrhyw effaith bosibl ar briddoedd a daeareg fod yn fach iawn.

Cymdeithasol

Diogelwch trafnidiaeth: Mae rhai pobl o'r farn y bydd llwybr mwy uniongyrchol i ardal wasanaethau'r draffordd yn fuddiol.

Bio-diversity: Minimal (if any) impact is expected on bats, hazel dormice, badgers and great crested newts. Dormouse surveys will be undertaken in this area and should dormice be confirmed present in this area it will be included within the dormouse mitigation strategy. The area of woodland to be lost is not designated as an ecologically important site and is not included on the ancient woodland inventory. Notwithstanding this, trees and scrub are of potential value to breeding birds, therefore clearance of vegetation would be undertaken outside of the bird-breeding season or following a survey to confirm there are no bird nests present.

Archaeology and Cultural Heritage: No additional impact is expected in relation to archaeology and cultural heritage. This is assessed in detail within the March 2017 ESS.

Water Environment: Surface water run-off from the new eastbound off-slip at Magor will be captured by conventional drainage systems comprising concrete channels, gullies, carrier pipes and filter drains. Flows from the tarmacadam running surface are captured separately to the cutting drainage. Flows from the highway are conveyed to Water Treatment Area 10 for attenuation and treatment, and flows from the cutting are routed to watercourses within the catchment. Any effect on the water environment would be minimal.

Soils and Geology: Any potential impact on soils and geology is expected to be minimal.

Social

Transport safety: A more direct route to the motorway services area is considered by some to be beneficial.

Diogelwch personol: Mae'r cynnig yn cyflwyno croesfannau a reolir gan signalau wrth gylchfan yr A4810/B4245. Bydd hyn yn dileu'r ddu danlwybr a ddangosir yn y cynllun cyhoeddodedig. Gallai hyn wneud y llwybr yn fwy deniadol i gerddwyr a beicwyr.

Athreiddedd: Ni fyddai unrhyw effaith ar athreiddedd. Mae'r cynnig yn cynnwys croesfannau ar yr un lefel a reolir gan signalau yn lle'r tanlwybrau a ddangosir ar y cynllun cyhoeddodedig. Byddai'r pellter cyffredinol i'w deithio yn debyg.

Ffitrwydd corfforol: Ni fyddai llawer o effaith ar ffitrwydd corfforol. Byddai'r llwybr ar gyfer defnyddwyr difodur yn debyg o ran hyd i'r cynllun arfaethedig.

Cynhwysiant cymdeithasol: Ni fyddai unrhyw newid i effeithiau'r cynllun cyhoeddodedig.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol: Ni fyddai unrhyw newid i'r cynllun cyhoeddodedig.

Arall

Derbynioledeb gan y cyhoedd: Ni wyddys safbwytiau'r cyhoedd, ond disgwylir iddynt fod yn gymysg.

Derbynioledeb i randdeiliaid eraill: Bydd y cynnig yn darparu cysylltedd ychwanegol â'r busnesau yn ardaloedd Magwyr a Gwndy.

Ymarferoldeb technegol a gweithredol: Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau technegol na gweithredol.

Cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd ariannol: Byddai angen ardaloedd bach o dir ychwanegol. Yn gyffredinol, gellir ymgorffori'r gost o fewn costau rhagamcanol y cynllun. Oherwydd y bydd gwaith eisoes yn cael ei wneud yn yr ardal yn rhan o'r cynllun, ni fydd unrhyw effaith ar y rhaglen.

Risgiau: Mae'r aliniad yn mynd ar hyd y Cynllun Cyhoeddodedig ac mae o fewn ardal lle mae datblygiad eisoes wedi digwydd. Ystyrir bod y cynnig hwn yn un risg isel.

Personal security: The proposal introduces signal controlled crossings at the A4810/ B4245 roundabout. This removes the two subways shown in the published scheme. This could make the route more attractive to pedestrians and cyclists.

Permeability: There would be no effect on permeability. The proposal has at grade signal controlled crossings in place of the subways of the published scheme. The overall distance travelled would be similar.

Physical fitness: There would be little effect on physical fitness. The non-motorised user route would be of similar length to the proposed scheme.

Social inclusion: There would be no change to the effects of the published scheme.

Equality, diversity and human rights: There would be no change to the published scheme.

Other

Public acceptability: The views of the public are unknown but are considered likely to be mixed.

Acceptability to other stakeholders: The proposal will provide added connectivity to the businesses in the Magor and Undy areas.

Technical and operational feasibility: No technical or operational effects are anticipated.

Financial affordability and deliverability: Small areas of additional land would be required. Overall the cost can be absorbed within the projected scheme costs. As the scheme already has works within the area there will be no effect on programme.

Risks: The alignment runs alongside the Published Scheme and is in an area where development has already taken place.

LLIF TRAFFIG RHAGOLYGOL

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau rhagolygol i lif traffig o gymharu'r Cynllun Cyhoeddiedig â'r cynnig hwn.

Dangosir y llif gan gyfeiriad cwmpawd, e.e. tua'r gogledd, tua'r de.

| Llif Traffig 2037 (Cerbydau yr Awr) | | | |
|--|-----------------------------|--|---|
| Lleoliad | Cynllun Cyhoeddiedig | Gyda'r Ffordd Ymadael tua'r Dwyrain | Gwahaniaeth o'r Cynllun Cyhoeddiedig |
| Oriau brig y bore | | | |
| Yr A4810 i'r De o'r B4245, tua'r gogledd | 520 | 368 | -152 (-29%) |
| Yr A4810 i'r De o'r B4245, tua'r de | 908 | 953 | +45 (+5%) |
| Y B4245 yn cyrraedd Magwyr o'r gorllewin, tua'r dwyrain | 586 | 628 | +42 (+7%) |
| Y B4245 yn gadael Magwyr yn y gorllewin, tua'r gorllewin | 869 | 865 | -4 (-0%) |
| Y B4245 ym Magwyr, tua'r dwyrain | 390 | 431 | +41 (+11%) |
| Y B4245 ym Magwyr, tua'r gorllewin | 483 | 477 | -6 (-1%) |
| Y B4245 yn gadael Gwndy yn y dwyrain, tua'r dwyrain | 727 | 734 | +7 (+1%) |
| Y B4245 yn cyrraedd Gwndy o'r dwyrain, tua'r gorllewin | 410 | 372 | -38 (-9%) |
| Ffordd ymadael newydd yr M4 tua'r dwyrain, i'r gorllewin o Fagwyr | Dd/B | 444 | Dd/B |
| Oriau brig y prynhawn | | | |
| Yr A4810 i'r De o'r B4245, tua'r gogledd | 803 | 610 | -193 (-24%) |
| Yr A4810 i'r De o'r B4245, tua'r de | 534 | 532 | -2 (-0%) |
| Yr B4245 yn cyrraedd Magwyr o'r gorllewin, tua'r dwyrain | 731 | 794 | +63 (+9%) |
| Y B4245 yn gadael Magwyr yn y gorllewin, tua'r gorllewin | 488 | 496 | +8 (+2%) |
| Y B4245 ym Magwyr, tua'r dwyrain | 351 | 413 | +62 (+18%) |
| Y B4245 ym Magwyr, tua'r gorllewin | 463 | 469 | +6 (+1%) |
| Y B4245 yn gadael Magwyr yn y dwyrain, tua'r dwyrain | 506 | 504 | -2 (-0%) |
| Y B4245 yn cyrraedd Magwyr o'r dwyrain, tua'r gorllewin | 664 | 605 | -59 (-9%) |
| Ffordd ymadael newydd yr M4 tua'r dwyrain, i'r gorllewin o Fagwyr | Dd/B | 441 | Dd/B |


Mae'r diagramau ar y tudalennau canlynol yn rhoi rhywfaint o fanylion ynglŷn â'r llif traffig rhagolygol ar gyfer yr ardal yn ystod cyfnodau brig y bore a'r prynhawn/gyda'r nos.


The table below provides a summary of the forecast changes to the traffic flows when comparing the Published Scheme to this proposal.

The flows are indicated by compass direction, e.g. NB - northbound, SB - southbound.

| 2037 Traffic Volumes (Vehicles per Hour) | | | |
|---|-------------------------|--------------------------------|---|
| Location | Published Scheme | With Eastbound Off-slip | Difference from Published Scheme (%age change) |
| Morning peak | | | |
| A4810 South of B4245, NB | 520 | 368 | -152 (-29%) |
| A4810 South of B4245, SB | 908 | 953 | +45 (+5%) |
| B4245 entering Magor from the west, EB | 586 | 628 | +42 (+7%) |
| B4245 exiting Magor in the west, WB | 869 | 865 | -4 (-0%) |
| B4245 in Magor, EB | 390 | 431 | +41 (+11%) |
| B4245 in Magor, WB | 483 | 477 | -6 (-1%) |
| B4245 exiting Undy in the east, EB | 727 | 734 | +7 (+1%) |
| B4245 entering Undy from the east, WB | 410 | 372 | -38 (-9%) |
| New M4 EB off-slip west of Magor | N/A | 444 | N/A |
| Afternoon peak | | | |
| A4810 South of B4245, NB | 803 | 610 | -193 (-24%) |
| A4810 South of B4245, SB | 534 | 532 | -2 (-0%) |
| B4245 entering Magor from the west, EB | 731 | 794 | +63 (+9%) |
| B4245 exiting Magor in the west, WB | 488 | 496 | +8 (+2%) |
| B4245 in Magor, EB | 351 | 413 | +62 (+18%) |
| B4245 in Magor, WB | 463 | 469 | +6 (+1%) |
| B4245 exiting Magor in the east, EB | 506 | 504 | -2 (-0%) |
| B4245 entering Magor from the east, WB | 664 | 605 | -59 (-9%) |
| New M4 EB off-slip west of Magor | N/A | 441 | N/A |


The diagrams on the following pages provide some detail on the forecast traffic flows for the area in the morning and afternoon/evening peak periods.





SYMUDIADAU TRAFFIG RHAGOLYGOL
ORIAU BRIG Y BORE 2037 – Y CYNLLUN
CYHOEDDEDIG A FFORDD-YMADAEL
MAGWYR TUAR DWYRAIN

MORNING PEAK 2037 FORECAST
TRAFFIC MOVEMENTS - PUBLISHED
SCHEME PLUS THE MAGOR
EASTBOUND OFF-SLIP



**SYMUDIADAU TRAFFIG RHAGOLYGOL
ORIAU BRIG Y PRYNHAWN 2037 – Y
CYNLLUN CYHOEDDEDIG A FFORD
-YMADAEL MAGWYR TUA'R DWYRAIN**

**AFTERNOON PEAK 2037 FORECAST
TRAFFIC MOVEMENTS - PUBLISHED
SCHEME PLUS THE MAGOR
EASTBOUND OFF-SLIP**

